



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Rhif: WG46582**

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Ymgynghoriad ar y cyrff cyhoeddus ychwanegol  
sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant (Rhan  
2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol  
(Cymru) 2015

**Rhagfyr 2022**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-186-3

## **Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r [ymgyngoriad](#) ar y cynnig i ychwanegu cyrff cyhoeddus ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant (Rhan 2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## **Camau i'w Cymryd**

Mae'r ddogfen hon at ddibenion gwybodaeth yn unig.

## **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Gellir gwneud cais i gael fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu ieithoedd eraill.

## **Manylion cyswllt**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r:

Is-adran Dyfodol Cynaliadwy  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

E-bost: [sustainable.futures@gov.wales](mailto:sustainable.futures@gov.wales)

## **Copiâu ychwanegol**

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r dogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>4</b>
<b>Cwestiynau'r ymgynghoriad</b> .....	<b>6</b>
1. Beth yw eich barn chi am ymestyn y ddyletswydd llesiant i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol sydd wedi'u rhestru yn y ddogfen ymgynghori hon? .....	6
2. Pa arweiniad a chymorth fyddai eu hangen arnoch i baratoi ar gyfer y ddyletswydd llesiant yn eich sefydliad, a'i chyflawni? .....	9
3. Yn eich barn chi, beth fydd y goblygiadau o ran adnoddau wrth baratoi ar gyfer y ddyletswydd llesiant yn eich sefydliad, a'i chyflawni?.....	10
4. Beth yw'r prif wersi rydych chi wedi'u dysgu wrth baratoi ar gyfer y ddyletswydd llesiant, a'i chyflawni, y byddech chi'n awyddus i'w rhannu â chyrff cyhoeddus newydd sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf WFG? .....	11
5. Pa arweiniad a chymorth oedd yn ddefnyddiol i chi wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy? .....	13
6. Beth yw'r cyfleoedd sydd ar gael i rannu profiadau rhwng cyrff sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf WFG ar hyn o bryd a'r rhai y bwriedir eu cynnwys?.....	16
7. Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau posibl y gallai ymestyn dyletswydd llesiant Deddf WFG eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar: .....	18
<input type="checkbox"/> gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac .....	18
<input type="checkbox"/> ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. ....	18
9. A oes gennych chi farn arall am ymestyn dyletswydd llesiant y Ddeddf WFG mewn perthynas ag ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg? .....	25
10. A oes gennych chi sylwadau eraill am ymestyn dyletswydd llesiant y Ddeddf WFG i'r cyrff arfaethedig sydd wedi'u rhestru yn yr ymgynghoriad? .....	26
<b>Casgliad a'r camau nesaf</b> .....	<b>30</b>
<b>Rhestr o'r termau allweddol</b> .....	<b>30</b>

# Cyflwyniad

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'Deddf WFG') yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, a diwylliannol Cymru. Mae gan rai cyrff cyhoeddus datganoledig ddyletswydd gyfreithiol i ymgymryd â datblygu cynaliadwy; dyma'r ddyletswydd llesiant unigol yn Rhan 2 o Ddeddf WFG. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i gyrff cyhoeddus bennu a chyhoeddi amcanion sydd â'r nod o sicrhau eu bod yn cyfrannu i'r eithaf at gyflawni pob un o'r nodau llesiant ac yn cymryd pob cam rhesymol i gyflawni eu hamcanion. Darperir rhestr o'r termau allweddol yn y ddogfen hon er gwybodaeth.

Ar 14 Gorffennaf 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar ymestyn y ddyletswydd llesiant yn Rhan 2 o Ddeddf WFG i wyth corff cyhoeddus datganoledig. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus am 14 wythnos tan 20 Hydref 2022 a gofynnwyd deg cwestiwn. Cyfeiriwyd rhai o'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad at y cyrff cyhoeddus y cynigir iddynt fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant, a hynny ynghylch yr arweiniad a'r cymorth y gallai fod eu hangen arnynt; a chyfeiriwyd rhai o'r cwestiynau at gyrff sydd eisoes yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant er mwyn casglu gwybodaeth ac arferion gorau o ran gwreiddio'r ddyletswydd llesiant yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

## Ynghylch yr ymatebion

Cafodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 34 ymateb i'r ymgynghoriad:

- gafwyd 19 o'r rhain drwy'r ymgynghoriad ar-lein; a
- chafwyd 15 dros e-bost.

Roedd yr ymatebion a gafwyd dros e-bost yn amrywio o ran strwythur, naill ai'n dilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad yn agos a/neu'n rhoi sylwadau ar oblygiadau sut y cyflawnir y ddyletswydd llesiant. Roedd yr ymatebion hefyd yn amrywio o ran hyd a maint y dystiolaeth ategol neu'r sylwebaeth ategol a ddarparwyd.

Roedd y 34 o ymatebwyr yn cynnwys:

- 2 Awdurdod Lleol
- 3 Chyngor Tref a Chymuned
- 2 Fwrdd Iechyd
- 6 o Asiantaethau'r Llywodraeth / Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill (cyrff arfaethedig)
- 5 o Asiantaethau'r Llywodraeth / Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill
- 2 Sefydliad Trydydd Sector / Elusen
- 8 Corff Cynrychioladol / Corff Proffesiynol / Cymdeithas / Undeb
- 1 Cwmni Preifat
- 4 o Ymatebwyr Unigol
- 1 Ymateb Dienw

## Ynghylch yr adroddiad a'r dadansoddiad hwn

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi golwg gyffredinol o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Nid yw'n ceisio nodi'n fanwl bob pwynt a godwyd gan ymatebwyr. Mae'r adroddiad yn dilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad, ac mae cwestiynau ac is-gwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u nodi mewn adrannau. Darperir cyfradd ymateb ar ffurf canran ar gyfer pob un o'r cwestiynau, yn ogystal â dadansoddiad o'r ymatebion. Mae'r cyfrannau a gyflwynir yn y dadansoddiad ar gyfer pob cwestiwn yn ymwneud â chyfanswm y rhai a roddodd sylwadau ysgrifenedig mewn ymateb i'r cwestiwn hwnnw. Mae'r dadansoddiad yn dechrau gyda sylwadau cryno ar unrhyw wahaniaethau barn allweddol. Pan fydd ymatebwyr wedi cyfeirio at ddogfennau ac adroddiadau, darparwyd dolenni lle bo modd. Drwy gydol yr adroddiad daw'r themâu a'r pwyntiau a gyflwynir o'r sylwadau a wnaed gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, ac nid ydynt yn cynrychioli barn awduron yr adroddiad.

Roedd hi'n bosibl cael gafael ar y ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb drwy dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar [llyw.cymru](http://llyw.cymru). Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y cyrff cyhoeddus a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad a'r cyrff sydd eisoes yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant i'w gwahodd i ymateb i'r ymgynghoriad. Cyhoeddwyd blog byr ar yr ymgynghoriad a oedd yn annog cyrff cyhoeddus ac unigolion â diddordeb i ymateb ar [flog Llunio Dyfodol Cymru](#)<sup>ii</sup>. Adeg lansio'r ymgynghoriad, cyhoeddwyd trydariat hefyd a oedd yn cynnwys dolennau i'r ymgynghoriad.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ynghylch yr ymgynghoriad, yn ogystal ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, Cadeirydd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd, a Chadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd.

Ar 4 Hydref 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru sesiwn gweithdy gyda chynrychiolwyr o'r wyth corff cyhoeddus a gwahodd cynrychiolwyr o'r cyrff cyhoeddus sydd eisoes yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant i gyfnewid gwybodaeth, rhannu arferion gorau, a helpu i lywio'r paratodau ar gyfer cyflawni'r ddyletswydd llesiant. Pennwyd ffocws y sesiwn gan yr adborth a gafwyd gan y cyrff cyhoeddus arfaethedig cyn y sesiwn ynglŷn â'r meysydd llesiant yr oeddent eisieu dysgu fwyaf amdanynt. Roedd ail sesiwn gyfnewid ar 29 Tachwedd 2022 yn canolbwyntio ar rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, yr egwyddor datblygu cynaliadwy, a rôl Cydgysylltwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru a Mwy. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried cynlluniau ar gyfer rhagor o weithdai a chynlluniau rhannu gwybodaeth.

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

## Cyffredinol

### 1. Beth yw eich barn chi am ymestyn y ddyletswydd llesiant i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol sydd wedi'u rhestru yn y ddogfen ymgynghori hon?

**Cyfradd ymateb: 100%**

Roedd cefnogaeth sylweddol dros ymestyn y ddyletswydd llesiant i'r wyth corff cyhoeddus ychwanegol sydd wedi'u rhestru yn yr ymgynghoriad.

#### Crynodeb o'r sylwadau cyffredinol

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi mynegi cefnogaeth dros ymestyn y ddyletswydd llesiant i'r wyth corff cyhoeddus arfaethedig oherwydd y cyfeiriad strategol cyffredin y mae'r ddyletswydd llesiant yn ei ddarparu drwy ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fabwysiadu dull system gyfan o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Gwnaed y sylwadau canlynol:

- *The well-being duty should be at the heart of all public bodies. Extending the well-being duty demonstrates a shared commitment across Wales.*
- *We are aware that the Welsh Government intends to undertake post-legislative evaluation of the Act. Ideally perhaps, this evaluation would have been undertaken in advance of or alongside consideration of extending the well-being duty. Nevertheless, the issues in this response are likely to be relevant to post-legislative evaluation, at such time as the Welsh Government undertakes it.*
- *We support the Welsh Government's decision to extend the well-being duty to the public bodies proposed in the consultation. These organisations all play crucial roles in relation to public service delivery and extending the duty to them should result in stronger adherence to the sustainable development principle across the devolved public sector.*
- *We welcome the addition of the public bodies listed as it provides more public bodies to share and learn from and ensures a common strategic direction.*
- *Although we are not currently subject to the well-being duty, we consider that our role supports its purpose and that its requirements are compatible with how we work. It is natural for us to work in this way, as education and qualifications planning necessarily requires a long-term, future-focused approach. We also work collaboratively because we are one part of the whole education system in Wales.*
- *We welcome our inclusion to the public bodies subject to the well-being duty. Even though we have not been subject to the well-being duty since our establishment in 2017, we have been actively using the well-being goals as principles in how we work.*

- *The extension of the well-being duty will help embed the principles throughout more organisations in Wales, provide a consistent support network, and bring various expertise to the public bodies named within the WFG Act.*
- *Given that the WFG Act has now been in place for some seven years, coupled with the imminent appointment of a new Commissioner, it is appropriate that the range of bodies subject to the provisions of the WFG Act is reviewed.*
- *Public bodies will need to manage relationships with those bodies already covered by the duty, given that membership of Public Service Boards is not statutorily conferred as a result of the extension of the duty. It is important that those public bodies are able to work effectively with the original 44 to deliver sustainable and progressive services for the people of Wales.*

### **Ymestyn y ddyletswydd llesiant**

Dywedodd rhai ymatebwyr y dylid ymestyn y ddyletswydd ymhellach na'r wyth corff cyhoeddus arfaethedig sydd wedi'u rhestru yn yr adolygiad. Mae'r sylwadau wedi'u nodi isod:

- *More organisations need to be to be considered for inclusion. We believe that there are other bodies that meet the criteria, such as Estyn and the new Planning and Environment Decisions Wales, as this could go some way in driving change in the organisations they inspect, and they seem to meet the criteria. Likewise, applying the duty to the Development Bank of Wales would have benefits to how funds are awarded, and businesses can grow in line with the sustainable development principle.*
- *I think regulators and key/anchor organisations working with public bodies in Wales should be liable to the well-being duty – especially when delivering work of the public bodies.*
- *The duty could be extended to companies and services that wish to trade in Wales, or to accept contracts for work in Wales from Welsh bodies.*
- *The more public bodies that are covered by the well-being duty, the more commonplace its goals become. By including an increased number of bodies, awareness of the well-being duty increases and helps shape even more cross-organisation working. There are already partnerships within the organisations in the review. For example, some proposed and existing bodies have already been working together on a series of initiatives that have benefitted both organisations and have been delivered through the lens of a future generations approach. That is a testament to the approach of each organisation and there are undoubtedly opportunities to extend that to the informal working whilst creating the platform for collaboration where relationships do not currently exist.*
- *One observation is whether the new Citizen's Voice Body, which comes into effect from 1 April 2023, is or will be included within the WFG Act as it stands.*

## **Meini prawf i ychwanegu cyrff at y ddyletswydd llesiant**

Cafwyd sylwadau ynghylch y meini prawf a ddefnyddir i asesu cyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant ac mae'r rhain yn cynnwys:

- *It would be good to see more information on how the criteria was applied to the list of proposed bodies, in particular those rejected as not meeting the criteria.*
- *I would advocate for the criteria to evolve to include more bodies which can contribute to the achievement of the goals. The bodies currently covered by the well-being duty cannot achieve the well-being goals alone – often, they need to work alongside the private and voluntary sectors to maximise achievement of the goals. Differing legislation and policies applying to these organisations can make this challenging.*
- *Whilst Further and Higher Education institutions, training bodies and accrediting bodies are non-profit organisations, independent of Government control, there are ways in which the Government can influence and encourage adoption of the sustainable development principle as their central organising principle. Many Registered Social Landlords are already demonstrating how they are contributing to the national well-being goals. There are also private sector organisations in Wales that have voluntarily adopted the well-being duty, such as Dŵr Cymru, Principality, Bluestone National Park Resort, Constructing Excellence in Wales, Arup, the Development Bank of Wales and many others. Perhaps there is another way these organisations can be recognised outside of the legal well-being duty.*
- *The criterion should be examined to ensure that extension could go to all public sector bodies. Failing that, Welsh Government should work to ensure that the positive impact, especially of the Social Partnership and Public Procurement (Wales) Bill (SPPP Bill), should be reflected in education through other means such as school governance regulations and schoolteachers' conditions of service.*
- *It is helpful that the Welsh Government has shared its updated criteria for determining which bodies should become subject to the duty. However, the definition of 'strategic functions' is not clear and further explanation of what that means and how it applies in the context of individual bodies would be helpful.*
- *We noted the Welsh Government's rationale for not including certain bodies. However, we think the consultation could have been clearer on the following:*
  - *Registered Social Landlords: The consultation explains that they have not been included because of the 'varied level in public funding'. This prompts the question as to whether some receiving funding above a particular threshold should be included, while others not. There is perhaps a useful comparison to be drawn with community councils, where the provisions set out under section 40 of the WFG Act only relate to those with a gross income or expenditure of at least £200,000.*
  - *Inspectorates: The consultation explains that they have not been included because they do not have executive or strategic functions.*



*However, given that Care Inspectorate Wales and Healthcare Inspectorate Wales are in essence the Welsh Ministers exercising certain inspection and regulatory functions, it might be helpful to explain the position in relation to these. We welcome the commitment to ensuring there are appropriate arrangements for considering whether proposed bodies should be subject to the well-being duty as they are created.*

## **Cwestiynau i'r cyrff cyhoeddus arfaethedig**

### **2. Pa arweiniad a chymorth fyddai eu hangen arnoch i baratoi ar gyfer y ddyletswydd llesiant yn eich sefydliad, a'i chyflawni?**

**Cyfradd ymateb: 38%**

Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio ar y cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen ar y cyrff cyhoeddus arfaethedig wrth baratoi i gyflawni'r ddyletswydd llesiant. Mae crynodeb isod o'r ymatebion, yn ôl thema:

#### **Arweiniad, hyfforddiant, ac adnoddau**

Cafwyd nifer o sylwadau a oedd yn canolbwyntio ar arweiniad a hyfforddiant. Mynegodd tua thraean o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn farn debyg ynghylch cael golwg gyffredinol ar y ddyletswydd llesiant, gydag enghreifftiau o sut mae wedi cael ei defnyddio o ran arfer da a gweithredu gwael. Roedd un neu ddau o ymatebwyr wedi tynnu sylw at adroddiadau fel [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020<sup>iii</sup>](#)) ac astudiaethau achos (fel y rhai sydd ar gael ar [wefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol<sup>iv</sup>](#)) sy'n dangos arferion da gan sefydliadau yn ogystal â meysydd i'w gwella.

Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn y gallai'r canllawiau hefyd gynnwys unrhyw gynlluniau pontio ar sut yr aeth y sefydliadau presennol ati i weithredu'r ddyletswydd llesiant, ynghyd ag unrhyw wersi ymarferol a ddysgwyd. Awgrymodd ymatebydd hefyd y byddai'n fuddiol rhannu unrhyw adnoddau ymarferol (fel rhestrau gwirio) fel bod y cyrff arfaethedig yn gallu cynnal hunanasesiad cychwynnol ar barodrwydd ar gyfer dod o dan y ddyletswydd llesiant i weld lle byddai angen canolbwyntio'r adnoddau i ddechrau.

Awgrymodd un neu ddau o'r ymatebwyr y gellid rhannu adnoddau hyfforddiant sydd eisoes wedi'u datblygu gan gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant â chyrrff arfaethedig (gydag un ymatebydd yn cydnabod y gellid teilwra adnoddau hyfforddiant ar gyfer y sefydliad perthnasol).

Ar ben hynny, roedd ychydig o sylwadau'n nodi y byddai canllawiau clir ar ddulliau adrodd, dangosyddion perfformiad allweddol presennol a mesurau llwyddiant hefyd yn cael eu croesawu i gefnogi'r gwaith o werthuso gweithgareddau mewn cysylltiad â'r ddyletswydd llesiant.

Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn bod y canllawiau statudol presennol (Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol)<sup>v</sup> yn ddigonol, gydag un yn awgrymu na fyddai angen rhagor o gymorth arnynt oni bai fod newidiadau sylweddol i'r canllawiau.

Sesiynau hyfforddi a datblygu wedi'u hwyluso gan Lywodraeth Cymru i atgyfnerthu gofynion y ddyletswydd llesiant oedd awgrym un corff arfaethedig.

### **Dysgu a rhannu gwybodaeth**

Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu rhannu enghreifftiau o amcanion llesiant gan gyrff sydd eisoes yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant, yn enwedig lle mae'r cyrff cyhoeddus o faint tebyg ac yn meddu ar gylch gwaith tebyg. Roedd un neu ddau o'r cyrff arfaethedig yn teimlo y byddai'n fuddiol dysgu gan gyrff presennol ynglŷn â'r ffordd maent wedi rhoi'r ddyletswydd ar waith a sut maent wedi gwreiddio'r dull gweithredu yn eu gweithrediadau.

Yn yr un modd, roedd cefnogaeth gan ychydig o ymatebwyr i gael rhwydwaith cymheiriaid i gefnogi'r cyrff cyhoeddus arfaethedig (a'u swyddogion arweiniol) sy'n dod o dan y ddyletswydd llesiant, i ddysgu a chydweithio ar y gofynion. Nododd un neu ddau o ymatebwyr y byddai system mentora neu gyfeillio yn ddefnyddiol.

Dangosodd nifer fach o ymatebwyr ddiddordeb mewn dysgu am rolau a chyfrifoldebau unigolion yn y cyrff presennol sy'n gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd llesiant. Nododd un ymatebydd hefyd y byddai'n fuddiol i is-adrannau noddi yn Llywodraeth Cymru fod yn rhan o drafodaethau wrth baratoi i gyflawni'r ddyletswydd llesiant, yn enwedig mewn perthynas â'r effaith ar drefniadau atebolrwydd a llythyrau cylch gwaith.

### **3. Yn eich barn chi, beth fydd y goblygiadau o ran adnoddau wrth baratoi ar gyfer y ddyletswydd llesiant yn eich sefydliad, a'i chyflawni?**

**Cyfradd ymateb: 44%**

#### **Cyrff arfaethedig**

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyrff arfaethedig y byddai'r costau'n cael eu hamsugno yn yr adnoddau presennol heb gynydd mewn costau staffio. Cafwyd sylwadau hefyd gan rai ymatebwyr a oedd yn dweud y byddai'r costau'n fach iawn. Dywedodd un neu ddau o'r ymatebwyr y byddai'n anodd rhagweld costau, a bod angen cadw golwg ar y costau. Nododd un neu ddau o ymatebwyr y gallai fod angen adnoddau i adrodd ar amcanion llesiant a'u gwerthuso, a bod angen amser ac adnoddau ychwanegol i addysgu cyflogaion ymhellach. Awgrymwyd y gallai'r ffioedd archwilio fod yn uwch, gyda rhai ymatebwyr yn dweud y byddai adnoddau ymlaen llaw ar gyfer y cyrff arfaethedig yn ddefnyddiol i sicrhau budd yn y tymor hwy, a bod swyddogion hyfforddedig sydd â digon o wybodaeth yn bwysig.

## Sefydliadau sy'n cefnogi cyrff

Nodwyd bod angen adnoddau priodol ar gyrff cyhoeddus, yn ogystal â chynghor dro ar ôl tro ac anogaeth wedi'i hatgyfnerthu a bod cyrff llwyddiannus yn cael cyngor pwrpasol, adborth cyson a chyfaill beirniadol y gellir ymddiried ynddo dros gyfnod hir.

Awgrymodd y sefydliad sy'n aelod, Cydgysylltwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru a Mwy, y dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu cymorth ariannol i helpu i dyfu'r rhwydwaith. Ystyriwyd y bydd angen rhoi mwy o sylw i gyrff nad ydynt eisoes yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant ac y gellid codi ffioedd archwilio arnynt.

## Cwestiynau i gyrff cyhoeddus presennol – dysgu gan eraill

Rydym yn awyddus i ddefnyddio'r ymgynghoriad hwn i gasglu gwybodaeth am brofiad cyrff cyhoeddus wrth wreiddio'r Ddeddf WFG yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

### **4. Beth yw'r prif wersi rydych chi wedi'u dysgu wrth baratoi ar gyfer y ddyletswydd llesiant, a'i chyflawni, y byddech chi'n awyddus i'w rhannu â chyrrff cyhoeddus newydd sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf WFG?**

#### **Cyfradd ymateb: 44%**

Mae'r ymatebion i gwestiwn 4 wedi cael eu grwpio yn ôl themâu isod.

#### **Strategaeth a chynllunio**

Nododd tua hanner yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn fod angen cynnwys pensaernïaeth Deddf WFG, gan gynnwys ffyrdd o weithio ac amcanion llesiant, o fewn strategaeth graidd sefydliad, gan gynnwys yr holl fframweithiau cynllunio a phrosesau cynllunio busnes, adroddiadau ar benderfyniadau, a dogfennau am brosiectau.

Roedd nifer dda o ymatebwyr wedi ystyried y pum ffordd o weithio, gydag un ateb yn nodi ei bod hi'n bwysig ymgysylltu â chymunedau i ddeall eu hanghenion llesiant (yn enwedig yn ystod pandemig COVID-19), er mwyn darparu 'gwybodaeth' werthfawr i gefnogi'r gwaith o wreiddio'r ddyletswydd llesiant ac i helpu i lywio penderfyniadau strategol yn y dyfodol.

Roedd rhai ymatebion yn awgrymu bod deall gwahanol agweddau ar ddatblygu cynaliadwy yn allweddol yn sgil y ffaith bod gan wahanol gyrff cyhoeddus gylich gwaith gwahanol. Roedd rhai ymatebwyr hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau eglurder ynghylch y ddyletswydd llesiant a sut mae'n cyd-fynd â gwaith sefydliad, yn enwedig wrth wneud penderfyniadau.

#### **Hyfforddiant ac ymgysylltu**

Roedd hanner yr ymatebwyr i'r cwestiwn hwn wedi pwysleisio mor bwysig oedd hi i staff gael hyfforddiant ar y ddyletswydd llesiant a chyfrifoldebau newydd eu sefydliad er mwyn gallu cymhwyso hynny yn eu maes gwaith eu hunain. Roedd rhai hefyd yn

honni, ar gyfer staff sy'n cael hyfforddiant cychwynnol ac yn ymgymryd â gweithgareddau sefydlu, y dylid darparu hyfforddiant gloywi i gynnal gwybodaeth dda am elfennau Deddf WFG.

Soniodd nifer o ymatebwyr am bwysigrwydd ymgysylltu ar draws sefydliad, gan nodi y dylai pob aelod o staff fod yn rhan o'r broses gyfan i sicrhau 'ymrwymiad' a chynllunio ar gyfer gweithredu gan rannu arferion gorau ar draws sefydliad.

### **Uwch arweinyddiaeth**

Dywedodd nifer fach o ymatebwyr y dylai uwch aelodau tîm yn y sefydliadau perthnasol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant arwain drwy hyrwyddo'r ddyletswydd llesiant yn gyhoeddus. Awgrymodd ymatebydd hefyd fod angen hyrwyddwyr sy'n Gyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol ar gyfer gweithredu, a bod angen dyrannu adnoddau swyddogion digonol. Y rheswm am hyn yw bod arweinwyr sefydliadau mewn sefyllfa dda i gael dealltwriaeth gyfannol o waith y sefydliad felly maent yn gallu nodi cyfleoedd i sicrhau blaenoriaethau sy'n gyson â rhai'r partneriaid.

### **Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (Pum Ffordd o Weithio)**

Roedd tua thraean o'r ymatebwyr yn ystyried ei bod yn bwysig gwreiddio iaith Deddf WFG, yn enwedig y [Pum Ffordd o Weithio](#)<sup>vi</sup>, ym mhob cynllun, gweithgaredd a sgwrs ar draws sefydliad. Roedd hyn yn cynnwys gwerth darparu enghreifftiau effeithiol o weithgareddau ar raddfeydd gwahanol i ddangos perthnasedd yr egwyddor datblygu cynaliadwy a sut mae'n berthnasol i sefydliad. Dywedodd rhai ymatebwyr fod y pum ffordd o weithio wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol wrth gynllunio gweithgareddau a chynnwys pobl yn effeithiol yn y gwaith o ddatblygu polisiau.

Dywedodd rhai cyrff presennol fod bod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant wedi helpu i ganolbwyntio mwy ar fod yn fwy cynaliadwy a meddwl mwy am y tymor hir, yn ogystal â sicrhau dull gweithredu cyson ar draws rhannau mawr o'r sector cyhoeddus.

### **Adnoddau**

Mynegwyd pryderon ynghylch capasiti sefydliadau i wreiddio'r ddyletswydd llesiant. Soniodd un neu ddau o ymatebwyr na ddylid tanamcangyfrif yr adnoddau sydd eu hangen, a bod angen i'r capasiti a'r buddsoddiad sydd ei angen gan sefydliad er mwyn gwreiddio'r ddyletswydd llesiant yn briodol fod yn glir o'r cychwyn cyntaf. Cododd un ymatebydd gyd-destun ansicrwydd economaidd gan awgrymu y gall cyllid, a chyfyngiadau cyllidebol, lesteirio'r math o arloesi sydd ei angen ar gyrrff cyhoeddus er mwyn trawsnewid.

### **Cydweithio ac ymgysylltu allanol**

Thema a ddaeth i'r amlwg oedd cydweithio rhwng sefydliadau, a gyda Llywodraeth Cymru. Roedd consensws na ellir cyflawni'r ddyletswydd llesiant yn briodol ar eich pen eich hun, a'i bod hi'n bwysig gweithio gyda phartneriaid, staff a rhanddeiliaid, a bod manteision clir i fodolaeth dyletswydd sy'n berthnasol i lawer o sefydliadau ar

draws y sector cyhoeddus. Nodwyd y gall hyn ddarparu fframwaith ac iaith gyffredin ar gyfer gweithgarwch cydweithredol.

Dywedodd rhai ymatebwyr ei bod hi'n bwysig cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sefydlu a deall disgwyliadau rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau.

## **5. Pa arweiniad a chymorth oedd yn ddefnyddiol i chi wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy?**

**Cyfradd ymateb: 41%**

### **Sylwadau ynghylch arweiniad**

Roedd un ymatebydd wedi cyfeirio at yr [Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd](#)<sup>vii</sup> fel adnodd gwerthfawr ar gyfer arweiniad, gan ddweud '*These resources aim to help individuals to consider the natural environment and health in everything they do and how they can support the Act.*'

Dywedodd un ymatebydd fod '*the support offered by the Commissioner of a named relationship manager has helped to coordinate work on the well-being duty and has improved guidance, support, and constructive challenge.*'

Awgrymodd ymatebydd hefyd y gallai cyrff ddefnyddio'r allbynnau o archwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau i gyrff unigol, yn ogystal ag adroddiad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, a rhaglen o ddigwyddiadau arferion da. Mae'r manylion i'w gweld ar y wefan [Digwyddiadau | Archwilio Cymru](#)<sup>viii</sup>.

### **Cymorth ac arweiniad Llywodraeth Cymru**

Dywedodd hanner yr ymatebwyr eu bod yn teimlo bod canllawiau Llywodraeth Cymru ei hun yn ddefnyddiol. Roedd yr adnoddau a nodwyd yn cynnwys y [canllawiau statudol](#)<sup>ix</sup>, y [Dangosyddion Cenedlaethol](#)<sup>x</sup> ac [Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021](#)<sup>xi</sup> fel rhai defnyddiol o ran datblygu amcanion llesiant.

Soniodd rhai ymatebwyr ynghylch defnyddioldeb canllawiau, testun, delweddau a fideos syml a chlir, gyda'r [Canllaw Hanfodion](#)<sup>xii</sup> yn cael ei nodi'n benodol fel adnodd defnyddiol i roi trosolwg o'r ddyletswydd llesiant. Cyfeiriwyd at hyn yng nghyd-destun dadansoddi cysyniadau mwy cymhleth fel datblygu cynaliadwy.

### **Cymorth ac arweiniad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

Nododd llawer o ymatebwyr fod deunyddiau ac adnoddau gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddefnyddiol i sefydliad sydd am newid y ffordd mae'n gwneud penderfyniadau ac yn dechrau prosiectau sy'n cyflawni ar draws nifer o nodau llesiant. Cyfeiriwyd yn benodol at [Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol](#)<sup>xiii</sup> a'r [Fframwaith ar gyfer Dylunio Gwasanaeth](#)<sup>xiv</sup>.

Ar ben hynny, nododd un ymatebydd fod yr [Adnodd Hunan-fyfyrio](#)<sup>xv</sup>, sy'n galluogi sefydliadau i fonitro ac asesu cynnydd tuag at yr amcanion llesiant, yn ddefnyddiol, fel yr oedd [Y Gallu i Greu](#)<sup>xvi</sup>, sy'n nodi gweledigaeth gadarnhaol ynghylch sut y gallai Cymru edrych o 'bosibl'.

## Gweithdai, ymgysylltu, a digwyddiadau

Dywedodd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr fod y gweithdai, y digwyddiadau ymgysylltu a'r cyfleoedd rhwydweithio amrywiol a ddarparwyd yn hanfodol. Roedd adnoddau ar-lein ac integreiddio â rhwydweithiau sefydliadau hefyd o fudd arbennig. Soniodd ymatebydd fod adnoddau gan Swyddfa Archwilio Cymru, er enghraifft gweithdai ar gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn fuddiol.

Nodwyd hefyd bod Cymuned Arbenigwyr ar Ddatgarboneiddio Llywodraeth Cymru a Bwrdd Rhaglen Dull Gweithredu ar gyfer Gofal Iechyd Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol o ran rhannu arferion gorau.

## Dogfennau ac adroddiadau cyffredinol

Dyma'r dogfennau a'r adroddiadau eraill yr ystyrir eu bod yn ddefnyddiol:

- [Sero Net Cymru](#)<sup>xvii</sup>, sy'n nodi'r camau sydd eu hangen i gyflawni ail gyllideb garbon Cymru (2021-2025).
- [Ffyniant i Bawb; Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd](#)<sup>xviii</sup> yw Cynllun Addasu Cymru ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Mae'n darparu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer Cynllunio ar gyfer Addasu ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol.
- [Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022-2025](#)<sup>xix</sup> sy'n rhoi cyfarwyddiadau a chanllawiau i helpu sefydliadau iechyd i gynllunio rhwng 2022 a 2025.
- [Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru](#)<sup>xx</sup>, a ddatblygwyd ar y cyd â'r holl gyfarwyddiaethau a meysydd gwasanaeth, sy'n tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth a Deddf WFG, ac mae'n codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd gwreiddio'r pum ffordd o weithio yn y gwaith o gyflawni camau gweithredu.
- [Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol Cymru 2020](#)<sup>xxi</sup> yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru y gellir ei defnyddio fel fframwaith i fesur gweithgareddau a phenderfyniadau yn ei herbyn.
- [Oxfam - 'Toesen Cymru 2020: Fframwaith ar gyfer cynaliadwyedd amgylchedd a chyfiawnder cymdeithasol'](#)<sup>xxii</sup>.

## Gweithio gydag eraill

Nododd un ymatebydd fod sefydliadau yn y sector iechyd wedi arwyddo'r [Siarter Teithio Iach](#)<sup>xxiii</sup> i gefnogi ac annog staff ac ymwelwyr i deithio'n gynaliadwy i safleoedd sector cyhoeddus.

Crybwyllwyd enghraifft o gydweithio hefyd a oedd yn cynnwys gwaith rhwng lechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a fu'n cydweithio i ddatblygu'r [Pecyn Cymorth Tri Gorwel](#)<sup>xxiv</sup>. Mae'r canllaw hwn yn helpu cyrff cyhoeddus i feddwl a chynllunio'n well ar gyfer y tymor hir.

Cyfeiriwyd at [Gynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru<sup>xxv</sup>](#), sy'n darparu mandad uchelgeisiol ar gyfer gweithredu cenedlaethol a lleol ledled GIG Cymru, gan gynnwys y gofyniad i sefydliadau'r GIG lunio cynlluniau gweithredu datgarboneiddio.

Cyfeiriwyd hefyd at [Rhoi'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ar Waith<sup>xxvi</sup>](#), dogfen a ddatblygwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Kingston sy'n nodi pum argymhelliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth i roi'r pum ffordd o weithio ar waith er mwyn cyflawni'r nodau llesiant.

Mewn enghraifft arall, nodwyd bod lechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth i ychwanegu gwerth at y ffyrdd presennol o weithio.

### **Rhaglenni newid a ddatblygwyd gan gyrrff cyhoeddus**

Cyfeiriwyd at feysydd o newid corfforaethol (cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu, caffael, asedau, rheoli risg, rheoli perfformiad) fel mecanweithiau effeithiol ar gyfer sbarduno newid o fewn sefydliadau. Ystyriwyd y byddai edrych ar y saith maes hyn o'r newydd yn helpu i ddeall sut y gellid gwreiddio newidiadau yn y ffyrdd o weithio.

Mae enghreifftiau o gamau sydd wedi helpu i godi proffil agenda WFG ymysg staff yn cynnwys:

- [Menter 'Gweithio Sut Mae'n Gweithio Orau'<sup>xxvii</sup>](#) lechyd Cyhoeddus Cymru sy'n dangos y ffyrdd gorau o weithio o'r gorffennol a'r presennol.
- Prosiect 'Ein Gofod' sy'n dangos cynaliadwyedd ar waith a dealltwriaeth dda o Ddeddf WFG drwy gaffael nwyddau a gwasanaethau, ac aildddefnyddio deunyddiau ac offer.
- Y [Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach<sup>xxviii</sup>](#) [sef](#) fframwaith sy'n cefnogi'r pedwar gwasanaeth contractwyr gofal sylfaenol annibynnol yng Nghymru (fferylliaeth gymunedol, deintyddol, practis cyffredinol ac optometreg) i wella cynaliadwyedd amgylcheddol mewn ymarfer o ddydd i ddydd ac i gyrraedd targedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.
- [Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio 2022-2024<sup>xxix</sup>](#), a gynhyrchwyd gan lechyd Cyhoeddus Cymru ac a ddatblygwyd ar y cyd â'r holl gyfarwyddiaethau a meysydd gwasanaeth, sy'n tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng bioamrywiaeth a'r Ddeddf WFG.

## **6. Beth yw'r cyfleoedd sydd ar gael i rannu profiadau rhwng cyrff sydd wedi'u rhestru yn y Ddeddf WFG ar hyn o bryd a'r rhai y bwriedir eu cynnwys?**

**Cyfradd ymateb: 47%**

### **Cydweithio a gweithio mewn partneriaeth**

Dywedodd nifer fach o ymatebwyr fod digon o gyfleoedd i rannu profiadau ac i adolygu trefniadau rhwydweithio er mwyn eu cryfhau i annog mwy o gydweithio a dysgu. Soniodd rhai am gydweithio i greu gwell dealltwriaeth ac eglurder o ran terminoleg a sicrhau dull cyson ar draws sefydliadau.

Dywedodd un ymatebydd y byddai gweithio mewn partneriaeth yn ffordd effeithiol o ddarparu digon o gyfleoedd i rannu profiadau, helpu ei gilydd a dysgu gyda'i gilydd. Crybwyllwyd trefniant cyfeillio neu fentora rhwng sefydliadau hefyd gan un ymatebydd, yn ogystal â sylwadau mwy cyffredinol am sefydliadau presennol yn rhannu profiadau ac arferion gorau.

### **Rhwydweithiau a gweithdai**

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn credu y gallai rhwydweithio fod yn effeithiol boed hynny ar gyfer cyrff presennol i rannu profiadau a syniadau gyda sefydliadau newydd ar sail un-i-un neu drwy ddigwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol, cynadleddau, gweithgorau, fforymau rhanbarthol a grwpiau trawsbleidiol.

Cyfeiriwyd at gefnogaeth drwy'r rhwydweithiau presennol, gan gynnwys Cydgysylltwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru a Mwy a Rhwydwaith Gwent yn Barod ar gyfer yr Hinsawdd. Awgrymodd un ymatebydd hefyd y gallai'r cyrff arfaethedig sefydlu eu rhwydweithiau eu hunain i helpu gyda'u gwaith o wreiddio'r ddyletswydd llesiant.

Roedd rhai ymatebion yn awgrymu y byddai gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb yn helpu i feithrin amgylchedd a fyddai'n annog cydweithio/dysgu rhwng cyrff arfaethedig a chyrff presennol. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr hefyd at werth gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae rhai sylwadau wedi'u nodi isod:

- *Working groups, regional forums and cross-party groups can be established to share best practice.*
- *There are several opportunities through existing officer and member networks and through the Public Services Board.*
- *Working via the PSBs would provide a valuable opportunity to share experiences.*
- *Workshops would encourage the sharing of best practice and collaboration between the proposed and existing bodies. Collaboration is an area that needs further consideration as these organisations may not be part of the same networks as other public bodies.*
- *We are aware that the Future Generations Commissioners Office are arranging events to bring public bodies together, but this could be further supported by the Welsh Government.*



- *We are sure that many already engaged organisations would be willing to share experiences and ideas with incoming organisations on a one-to-one networking basis or alternatively should the opportunity for events / conferences be identified our organisation would fully engage.*

### **Cylchoedd adrodd a chynllunio**

Cyfeiriodd un ymatebydd at elfennau allweddol yng nghylch Deddf WFG, fel cyhoeddi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol. Soniwyd hefyd am bwysigrwydd gwreiddio safbwynt tymor hir mewn cylchoedd cynllunio ac ariannol. Mae'r sylwadau wedi'u nodi isod:

- *All public bodies will have the same responsibilities to the well-being duty and should be thinking and behaving towards the same goals. They will also have the same requirements on some important tasks/processes (e.g., setting well-being objectives and annual reporting), which could present additional opportunities for learning and joint working (e.g. shared well-being objectives).*
- *Key elements in the WFG Act cycle such as the updating of Future Trends could give particularly useful opportunities to share and learn.*
- *In addition to any planned workshops, all PSB agendas and minutes can be reviewed to understand how annual local well-being plans are developed. Similarly, the strategic and local area plans for all existing bodies would be a wealth of information from a desktop exercise point of view.*
- *It is important that reporting remains proportionate and enables and supports improvement. Specific feedback is beneficial in supporting the implementation of the well-being duty. Planning and financial cycles also need to include a long-term focus with clear milestones to improve accountability.*
- *We recognise the challenge of reporting to the different legislation such as the Environment Act, Biodiversity Section 6 Report, Decarbonisation Report and other relevant legislation and the need to ensure synergies between them.*

### **Sylwadau eraill**

- *Our organisation recognises the scale of the challenge in achieving cultural change required by the legislation. For example, we need to support our staff to interpret the ways of working so that they are 'real' in their everyday work and thinking and are connected to the definitions in the legislation. We believe that this is an area where organisations can learn from each other's approaches.*
- *Our organisation continues to work to embed the culture change required to implement the well-being duty successfully. We have identified further opportunities to increase awareness and understanding of team roles and contributions to the well-being duty; strengthening our multi-agency working to develop longer term, collaborative projects and focusing on health inequalities, and the social, cultural and economic aspects of sustainability, whilst continuing our work on environmental sustainability.*

## Y Gymraeg

### 7. Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau posibl y gallai ymestyn dyletswydd llesiant Deddf WFG eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

- **gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac**
- **ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Cyfradd ymateb: 68%**

#### **Gwella cyfleoedd**

Cafodd amrywiaeth o safbwyntiau eu mynegi ar sut y bydd ymestyn y ddyletswydd llesiant yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Manylir ar rai o'r sylwadau hyn isod:

- *It will increase promotion of skills development of young people and adult populations in Wales, who will have greater access to opportunities to learn about our culture, heritage and language. In relation to all populations, this will increase employability for any job markets in Wales and ensure that culture, heritage and language are central to jobs and seeking roles in the future.*
- *Increasing access to opportunities to better understand our culture, heritage and language will increase a sense of personal identity of the Welsh population and will therefore help in making our communities better understand each other and in improving the sense of connection between individuals and between communities in Wales.*
- *Extending the number of public bodies who are subject to the well-being duty will result in having a better impact and more considerations being given to the Welsh language in decision-making processes, and what implications those decisions could have on the language and its use. This should lead to an increase in opportunities for Welsh speakers and learners to use the Welsh language in their professional and personal lives and for the future.*
- *The extension of the well-being duty to other bodies would be consistent with promoting culture and Welsh language across a wider range of organisations.*
- *The effects of extending the reach of the well-being duty will mean that more bodies have an obligation to promote and protect culture, heritage and the Welsh language. By doing so, it will encourage more people to access the Welsh language and cultural events across Wales and encourage more people to access opportunities to learn about our culture, heritage and language. This in turn will increase demand for Welsh language, cultural and heritage services.*
